

24 Gorffennaf 2019

David Richards
Cyfarwyddwr Llywodraethu a Moeseg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Drwy e-bost: David.Richards@gov.wales

Annwyl Mr Richards

Ymchwiliad Annibynnol Cwnsler y Frenhines

Ysgrifennaf ymhellach i'ch llythyr dyddiedig 12 Mehefin a'm hymateb dyddiedig 2 Gorffennaf 2019, am ein gohebiaeth ddiweddaraf ers i Mr Bowen CF atal yr Ymchwiliad ar 5 Medi 2018 dros dro wrth aros am ganlyniad yr adolygiad barnwrol yn *R (ar gais) Bernadette Sargeant v Prif Weinidog Cymru ac Arall*.

Gwnaeth eich llythyr gyfleu barn y Prif Weinidog y byddai'n well, yn y bôn, pe bai'r Ymchwiliad yn parhau i gael ei atal dros dro nes ei fod wedi penderfynu ar ôl y Cwêst a fyddai'r Ymchwiliad yn parhau mewn ffordd wahanol neu'n unol â chylch gwaith gwahanol. Yn fy ymateb, dywedais y byddai Mr Bowen CF yn ceisio barn y teulu Sargeant a'r Cyfranogwyr Craidd eraill, ac mae wedi gwneud hynny.

Ers hynny, mae'r Prif Weinidog wedi cyhoeddi ei ddatganiad ysgrifenedig dyddiedig 11 Gorffennaf yn dweud, gan fod y Cwêst bellach wedi dod i ben, ei bod hi'n briodol cael cyfnod o fyfyrto. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y bydd yn asesu pa gamau pellach y dylid eu cymryd, ar y cyd â'r teulu Sargeant a phartïon eraill â buddiant, gan gynnwys dyfodol proses yr Ymchwiliad, yng ngoleuni cwrpas a manylion y Cwêst. Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi cyhoeddi'r Cofnod Cau Ymchwiliad Datgelu Gwybodaeth (dyddiedig 24 Ionawr 2018) yn ymwneud ag ad-drefnu'r Cabinet ym mis Tachwedd 2017, ynghyd â'i ohebiaeth â Jonathan Jones CF o ran y Protocol Gweithredol ar gyfer yr Ymchwiliad a'r Protocol Gweithredol diwygiedig sy'n parhau i fod union yr un fath â'r fersiwn flaenorol.

O dan yr amgylchiadau, mae Mr Bowen CF wedi penderfynu parhau i atal yr Ymchwiliad dros dro a bydd yn rhoi datganiad i'r perwyl hwn ar wefan yr Ymchwiliad. Ond fel y nodwyd o'r blaen, mae'n ymwybodol iawn o'r amser sydd wedi mynd hebio ers marwolaeth Mr Sargeant ar 7 Tachwedd 2017. Er ei fod yn cytuno y dylid caniatáu rhywfaint o amser i fyfyrrio, mae wedi gofyn imi gyfleu ei ddymuniad bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cwestiynau allweddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac mae'n gofyn ichi nodi amserlen ddangosol ar gyfer y broses gwneud penderfyniadau.

Yn gywir



Salima Budhani

Cyfreithiwr Dros Dro yr Ymchwiliad

cc: Carwyn Jones AC

Neil Hudgell, Cyfreithwyr Hudgell